



Iwan Davies
Prif Weithredwr
Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy

iwan.davies@conwy.gov.uk

30 Mai 2019

Annwyl Iwan

**Adolygiad o'r Strwythur Cyflog a Gradd – Prif Swyddogion, Cyngor
Bwrdeistref Sirol Conwy**

Cafodd eich e-bost ar 13 Mai, ynghyd â'r llythyr eglurhaol a'r dogfennau atodol, yn cynnig adolygiad o'r strwythur cyflog a gradd ar gyfer Prif Swyddogion, eu hystyried gan Banel Annibynnol Cymru ar Gydabyddiaeth Ariannol yn ei gyfarfod ar 23 Mai. Roedd pob aelod o'r Panel yn bresennol ac felly roedd cworwm ar gyfer y cyfarfod.

O ran swyddogaeth y Panel sy'n ymwneud â chyflogau prif swyddogion, mae'r cylch gwaith a'r canllawiau a ddarparwyd gan Lywodraeth Cymru yn caniatáu i'r Panel wneud y canlynol:

- a) Cymeradwyo'r cynnig
- b) Mynegi pryderon ynghylch y cynnig
- c) Argymhell amrywiad i'r cynnig

Ar ôl rhoi ystyriaeth fanwl i gais eich awdurdod, penderfynodd y Panel gymeradwyo'r cynnig fel y'i cyflwynwyd, ar gyfer strwythur cyflog a gradd y Prif Swyddogion yn eich cyngor.

Yn gywir

John Bader

Cadeirydd